PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 1 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lynda Thorne, Manzoor Ahmed, Ahmed, Burfoot, Gordon, Hudson, Hunt, Murphy a/ac Robson |

138 : YMDDIHEURIADAU

Dim

139 : COFNODION

Byddai Cofnodion 8 Chwefror 2017 yn cael eu hystyried ar 15 Mawrth 2017.

140 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| HUNT | 16/02731/MJR | Aelod Bwrdd Bws Caerdydd |
| ROBSON | 16/02731/MJR | Aelod Bwrdd Bws Caerdydd |

141 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Yn unol â phwerau dirprwyedig y Pwyllgor hwn, y penderfynir ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â'r argymhellion yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw addasiadau pellach sydd wedi'u hamlinellu isod, ac y rhoddir gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

# CEISIADAU A RODDIR

16/02939/MJR – BUTETOWN
THE COAL EXCHANGE LIMITED, Y GYFNEWIDFA LO SGWÂR MOUNT STUART

Cais am ganiatâd mewn perthynas ag adeilad rhestredig i gynnal y gwaith Cam 1 i newid defnydd (REF:16/01024/MJR) a chreu 170 o ystafelloedd gwesty a defnyddiau cysylltiedig gan gynnwys derbynfa, man i gynnal digwyddiadau, parth treftadaeth, bwytai/tafarnau, Ardal Gwarchodaeth Arbennig a mannau cylchredeg.

Yn amodol ar ddiwygio Argymhelliad 1 fel a ganlyn:

'Yn amodol ar atgyfeiriad i Cadw yn unol â Rheoliad 13 Rheoliadau Cynllunio (Deddf Adeiladau Rhestredig ac ardaloedd cadwraeth) 1990: y RHODDIR caniatâd adeilad rhestredig ar yr amodau canlynol'

# CEISIADAU A RODDIR YN RHAN O WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

16/02731/MJR – CATHAYS
TIR I'R GOGLEDD O ORSAF RHEILFFORDD GANOLOG CAERDYDD A SAUNDERS ROAD, I'R DE O WOOD STREET AC I'R GORLLEWIN O GREAT WESTERN LANE.
Gwaith i adeiladu Cyfnewidfa Drafnidiaeth a chynteddfa ac unedau manwerthu/masnachol atodol cysylltiedig (dosbarthiadau defnydd A1/A2/A3), 195 o fflatiau (dosbarth defnydd C3), 12,052 SQM (GIA) o arwynebedd llawr swyddfeydd (dosbarth defnydd B1), maes parcio sy'n cynnwys 227 o leoedd a chanolfan feiciau, ardal gyhoeddus a seilwaith a gwaith peirianegol cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 8 fel a ganlyn:

'Asesiad modelu hydrolig: Dim gwaith datblygu uwchben lefel slabiau'r llawr cyn Asesiad Modelu Hydrolig i asesu'r cyflenwad dŵr cludadwy sydd ar gael i'r safle. Cyflwynir y datrysiadau a'r strategaeth dŵr cludadwy gyffredinol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a chytunir arnynt, yn ysgrifenedig. Rhoddir y cynllun cymeradwy ar waith yn unol â'r manylion cymeradwy.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 14 fel a ganlyn:

'Parcio i feiciau: Cyn meddiant llesiannol, caiff manylion sy'n dangos darpariaeth lleoedd parcio beiciau eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhoddir y cynllun cymeradwy ar waith yn unol â'r manylion cymeradwy.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 14 fel a ganlyn:

'Cyn cau maes parcio Network Rail, caiff cynllun i ddarparu 42 o leoedd parcio ar dir ym meddiant datblygwr i'r de o'r orsaf yn lle'r rhai sydd wedi colli o ganlyniad i gau'r maes parcio ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhoddir y cynllun cymeradwy ar waith yn unol â'r manylion cymeradwy'.

# CEISIADAU A DYNWYD YN ÔL

16/01760/MJR – CYNCOED
PRIFYSGOL FETROPOLITAN CAERDYDD CAMPWS CYNCOED, CYNCOED ROAD

Gwaith i ddymchwel hen fyngalo'r gofalwr ac adeiladu bloc lletyau saith llawr i fyfyrwyr gan gynnwys 56 o fflatiau clwstwr (a chyfanswm o 518 o leoedd gwely) ac

adeilad ‘fforwm’ dau lawr sy’n cynnwys defnyddiau llawr isaf atodol a chyfleusterau cynhadledd ar y llawr cyntaf, a gwaith peirianyddol, tirlunio a chylchredeg cysylltiedig ar y safle.

RHESWM: Ar gais yr ymgeisydd.

142 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF